Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Meddygfa New Chapel Street
# Dyddiad y gweithgarwch: 14 Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-820-2

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa New Chapel Street fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa New Chapel Street yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith
nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis a'r Meddyg Teulu Arweiniol ar 14 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad risg diweddaraf
- Dogfen mesurau COVID-19 y practis
- Amserlenni glanhau a'r contract glanhau
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau
- Archwiliad misol o'r practis gan y rheolwr
- Adnodd trefnu capasiti ystafelloedd
- Protocol mynediad i gleifion.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am y systemau newydd a roddwyd ar waith yn y practis ers dechrau'r pandemig. Roedd enghreifftiau'n cynnwys dogfen ar COVID-19 a gyflwynwyd i amlinellu'r gweithdrefnau'n glir ar gyfer yr holl staff. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio sut y gallai cleifion ddod i'r practis, gan gynnwys dogfen yn nodi'r broses mynediad i gleifion ac adnodd trefnu capasiti ystafelloedd. Roedd hyn yn galluogi'r practis i barhau i gynnal ymgyngoriadau wyneb yn wyneb gyda'r cleifion pe bai angen clinigol yn codi.

Disgrifiodd rheolwr y practis pa gamau a gymerwyd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod yr ystafelloedd wedi'u haddasu er mwyn rhoi mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, ac roedd mesurau Atal a Rheoli Heintiau ychwanegol, megis gorsafoedd diheintio, ar gael ym mhob rhan o'r practis.

Gwelsom dystiolaeth yn asesiad risg y practis, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021, a oedd yn dangos bod y practis wedi cwblhau'r holl gamau a oedd yn weddill.

Disgrifiodd rheolwr y practis y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd. Roedd y rhain yn cynnwys cadeiriau y gellir eu sychu, sgriniau, rhwystrau ar draws desgiau, system ffonau wedi'i diweddaru, drysau newydd sy'n agor yn awtomatig a chloch drws intercom fel bod modd i'r

staff sgrinio cleifion ar gyfer COVID-19 cyn iddynt ddod i mewn i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19, a chynigiwyd ymgyngoriadau i'r cleifion dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Mae'r practis wedi rhoi system ar waith sy'n galluogi'r cleifion i anfon lluniau at y meddyg teulu drwy ddolen. Yn dilyn hyn, os bydd angen i'r claf weld clinigydd wyneb yn wyneb, byddai apwyntiad yn cael ei drefnu.

Gwelsom dystiolaeth yn dangos bod staff y dderbynfa wedi rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu gydag apwyntiadau cleifion a chyfeirio'r cleifion at weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill am ofal pellach lle y bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau asesiad risg COVID-19 y GIG[1] er mwyn asesu'r risgiau personol sy'n gysylltiedig â pharhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19, gan dynnu sylw at unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i'r arferion gweithio. Dywedwyd wrthym fod y rhain wedi cael eu hystyried yn llawn a bod addasiadau wedi cael eu gwneud er mwyn cadw'r staff yn ddiogel yn y practis.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad risg diweddaraf
- Dogfen mesurau COVID-19 y practis
- Amserlenni glanhau a'r contract glanhau
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau
- Archwiliad misol o'r practis gan y rheolwr
- Cofnod hyfforddiant y staff ar gyfer atal a rheoli heintiau.

[1] Datblygwyd Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19. Nod yr adnodd yw helpu staff i ddeall a allant o bosibl fod yn wynebu mwy o risg, a'u helpu nhw a'u rheolwr llinell i ddewis y camau gweithredu cywir yn seiliedig ar lefel y risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi yn cynnwys y broses o reoli COVID-19. Dywedodd rheolwr y practis fod y staff yn cael diweddariadau rheolaidd drwy e-bost a chyfarfodydd tîm, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg y practis wedi cael ei gwblhau, ac roedd tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau rheoli heintiau misol hefyd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y gweithdrefnau glanhau wedi cynyddu a bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol[2] (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod contract glanhau ar waith gyda darparwr allanol. Hefyd, mae disgwyl i'r holl staff lanhau yn rheolaidd a rhwng cleifion.

Nodwyd bod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg[3], a'i waredu'n ddiogel. Rhoddwyd gwybodaeth inni am hyfforddiant rheoli heintiau, a ddangosodd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell "goch"[4] ddynodedig oddi wrth y brif ardal i gleifion, â drws penodol, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Dogfen mesurau COVID-19
- Cofnodion hyfforddiant y staff ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Cofnodion cyfarfodydd y staff
- Cynllun parhad busnes
- Cytundeb contractiol y contractwyr glanhau.

[2] Ystyr Cyfarpar Diogelu Personol yw cyfarpar a fydd yn diogelu'r defnyddiwr â'r claf rhag risgiau megis heintiau yn lledaenu.
[3] "Gwisgo" yw'r broses o wisgo cyfarpar diogelu personol yn ddiogel a "Diosg" yw'r broses o dynnu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel.
[4] [4] Mae ardaloedd coch hefyd yn cyfeirio at ardaloedd dynodedig neu lwybrau cleifion ag achos a gadarnhawyd neu a amheuir o COVID-19.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd rheolwr y practis yn glir ac yn wybodus am ei rôl, ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd fod y practis wedi rhoi trefniadau llywodraethu sylweddol ar waith ar ddechrau'r pandemig i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Ni chafwyd unrhyw achosion positif o COVID-19 ymhlith y staff nac ychwaith unrhyw angen i staff hunanynysu hyd yma.
Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd[5] clwstwr yn cael eu cynnal yn rhithwir, ac er bod nifer o swyddi gwag ar gyfer clinigwyr yn y clwstwr, mae cynlluniau ar waith i recriwtio ar gyfer y rolau hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn gweithio gyda sefydliadau lleol eraill i gefnogi gwasanaethau gofal lliniarol, sy'n ei gwneud yn bosibl i gael trafodaethau sensitif, a arweinir gan urddas, ynghylch gweithdrefnau Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) ac anghenion gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion gael gwybodaeth i gleifion yn ddwyieithog. Fodd bynnag, nid unrhyw siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff. Roedd nifer o ieithoedd eraill ar gael drwy'r llinell iaith, ac mae trefniadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw gyda chleifion nad ydynt yn siarad Saesneg er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael iddynt drwy hebryngwr neu drwy'r llinell iaith ganolog. Darparwyd gwybodaeth am frechiad COVID-19 yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[5] Ystyr **Clwstwr** yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff **Clystyrau** eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG **Cymru**. Mae meddygon teulu yn y **Clystyrau**'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.